# Y CYNGOR 06/12/12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, David G. Edwards, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, T.G. Ellis, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Christopher James O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Hefin Williams, John W. Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Endaf Cooke, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Gwen Griffith, Llywarch Bowen Jones, Linda Morgan, W. Tudor Owen, Peter Read, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Paul Thomas, Gruffydd Williams, Owain Williams

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Tom Ellis.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2012 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Tynnwyd sylw gan y Swyddog Monitro at yr eitem "Treth Cyngor – Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau". Nododd bod yr eitem hon yn ymwneud â dau gategori o eiddo sef -

a) Ail-gartrefi (tai gwyliau) sy'n wag ond wedi eu dodrefnu.
b) Tai sydd wedi bod yn wag ac heb eu dodrefnu ers 6 mis neu fwy.

Os oes aelod â thy yng Ngwynedd sy'n disgyn i'r naill gategori neu'r llall, ac yn talu treth cyngor arno nid treth annomestig, dylid datgan buddiant yn yr eitem a gadael y Siambr.

ii) Datganodd y Cynghorydd Dafydd Meurig fuddiant personol yn yr eitem "Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau" oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn dda iawn

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

iii) Datganodd y Cynghorydd Mair Rowlands fuddiant personol yn yr eitem "Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau" oherwydd bod yr ymgeisydd yn reolwr llinell ac yn bennaeth arni gyda'i swydd yn y Brifysgol.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

iv) Datganodd y Cynghorydd Mandy Williams Davies fuddiant personol yn yr eitem "Treth Cyngor – Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau" oherwydd i'w gŵr etifeddu tŷ teuluol sydd wedi bod yn wag ers mwy na chwe mis.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

v) Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn yr eitem "Treth Cyngor – Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau" oherwydd bod ei gartref yn wag ar hyn o bryd oherwydd y llifogydd diweddar.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

vi) Datganodd y Cynghorwyr Tom Ellis, Anwen Davies, Anwen Hughes, John B. Hughes, Caerwyn Roberts a Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn yr eitem "Treth Cyngor – Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau" oherwydd eu bod yn berchenogion ail-gartrefi (tai gwyliau).

'Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol -

Y Cynghorydd Linda Morgan ar golli ei mam yn ddiweddar.

Y Cynghorydd June Marshall ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

ii) Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorwyr Huw Edwards, Elwyn Edwards ac Ann Williams yn dilyn derbyn llawdriniaethau'n ddiweddar. Yn yr un modd, dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Peter Read yn dilyn ei anhwylder diweddar.

iii) Llongyfarchwyd Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar dderbyn Gwobr Rhagoriaeth mewn Rheoli Tybaco. Llongyfarchwyd hefyd y rhai o Wynedd ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Llandudno mis diwethaf.

iv) Anfonir dymuniadau gorau'r Cyngor a chydymdeimlad at bawb a effeithiwyd gan y llifogydd yn ddiweddar. Diolchwyd hefyd i holl staff y Cyngor a fu'n cynorthwyo yn ystod y digwyddiad.

v) Bwriedir cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 24 Ionawr 2013 i drafod y Newidiadau yn Rheoliadau Budd-dâl Treth Cyngor. Bwriedir hefyd wahodd Mr Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru i roddi cyflwyniad i'r Cyngor hwnnw.

vi) 'Roedd yn y broses o ymweld â holl gartref henoed y Cyngor cyn y Nadolig, a diolchodd am y croeso a gafodd hyd yn hyn.

Dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau a staff.

**4. CWESTIYNAU**

**a) Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

"Ydi Cyngor Gwynedd yn barod am effeithiau'r newidiadau yn y drefn budd-daliadau ar 11,000 o deuluoedd yng Ngwynedd? Bydd y newidiadau yn dod i rym ym mis Ebrill 2013 ac yn ymwneud â budd- dâl tai, budd-dâl treth cyngor a.y."

**Ateb gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Cabinet, Amddifadedd**

Diolchodd i'r aelod am y cwestiwn. Yn wyneb y ffaith y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 24 Ionawr 2013 i drafod Cynllun Gostwng Treth Cyngor a fydd yn disodli'r Budd-dâl Treth Cyngor presennol yn Ebrill 2013, 'roedd o'r o'r farn y gellir trafod yr ateb a baratowyd i'r cwestiwn yn y cyfarfod hwnnw.

'Roedd yr aelod a ofynnodd y cwestiwn yn fodlon â hynny.

**b) Cwestiwn gan y Cynghorydd Angela Russell**

"Achos bod problemau gyda llifogydd ar yr A499 ger Llanbedrog, a ddylai'r Cyngor sefydlu "barriers" ger ochr y ffordd i rwystro cerbydau sydd am fynd trwy'r dŵr i fod yn ddiogel."

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor yn absenoldeb y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet, Amgylchedd**

"Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth o fewn yr Adran Rheoleiddio yn ymwybodol iawn o'r pryderon yn ymwneud a'r safle yma. Fe gynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r cynghorydd lleol ar 14eg Dachwedd, pan esbonwyd bod lled y llain gyfochrog i'r ffordd yn y lleoliad yn annigonol i godi rhwystr. Yn ychwanegol i hyn, mae offer BT yn y llain, a byddai angen ei symud pe byddai angen gosod y sylfeini rwystrau.

Mae yn anodd felly lleddfu'r pryderon yn y tymor byr. Er hyn, mae cyfle yn codi wrth i'r Adran ddatblygu llwybr beicio rhwng Pwllheli ac Abersoch a gall hynny gynnig cyfle i ledu'r llain ac efallai gosod rhwystr addas. Mae'r rhaglen gosod llwybrau beicio bresennol yn cwblhau'r cysylltiad rhwng Criccieth a Phorthmadog yn ystod y flwyddyn ariannol yma ac yn anelu i gwblhau'r cysylltiad rhwng Glynllifon a Llanwnda a Ffordd Caergybi yn ystod 2013-14. Wedi hynny, y nod yw sefydlu'r cysylltiad rhwng Llanaelhaearn a Phwllheli yn ystod 2014-15, ac ymdrechu i wireddu rhan helaeth o cysylltiad rhwng Pwllheli ac Abersoch yn ystod 2015-16.

I geisio ymchwilio ymhellach os oes unrhyw beth ychwanegol ellir ei wneud yn y tymor byr i wella diogelwch, mae'r Aelod Cabinet yn barod i hwyluso cyfarfod gyda'r Cynghorydd lleol a swyddogion perthnasol."

**Cwestiwn Atodol**

"A fyddai'n bosibl cael gosod y "barriers" cyn y Nadolig."

**Ateb Arweinydd y Cyngor**

"Addawodd gyfleu'r neges i'r Aelod Cabinet, Amgylchedd"

## 5. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar benodi aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod cyfanswm o naw aelod ar y pwyllgor sef pump aelod annibynnol, un aelod pwyllgor cymunedol a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

Derbyniwyd ymddiswyddiad un o'r aelodau annibynnol ar 19 Gorffennaf 2012 gan greu sedd wag ar y pwyllgor. Yn unol â'r drefn a gytunwyd gan y Cyngor, hysbysebwyd y sedd wag a derbyniwyd pedwar cais.

Dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'n rhaid i Banel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymell i'r Cyngor pa ymgeisydd i'w benodi. Rhoddodd fanylion am aelodaeth y panel. Nododd mai rôl y panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio meini prawf y Cyngor ar

gyfer penodi aelodau annibynnol i'r pwyllgor. Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roddi sylw i argymhellion y panel.

Cyfarfu'r panel ar 22 Hydref 2012 a chyfwelwyd tri ymgeisydd. Nid oedd y pedwerydd ymgeisydd ar gael ar gyfer cyfweliad, ond rhoddwyd ystyriaeth i'w gais ar bapur a daeth y panel i'r casgliad nad oedd yn rhagori ar yr ymgeisydd a ddaeth i'r brig. Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrylwyr o'r holl geisiadau, penderfynodd y panel argymell Dr Einir Meredydd Young i'r Cyngor fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Mae Dr Young yn byw yn Nhalybont, Bangor ac yn gweithio yn y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD penodi Dr Einir Meredydd Young yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, i wasanaethu am gyfnod o chwe blynedd.**

**6. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i gadarnhau'n ffurfiol am 2013/14, ac wedi hynny, y penderfyniadau blaenorol i beidio caniatau disgowntiau i ail gartrefi ac eiddo gwag.

b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, a nodwyd bod strategaeth ariannol y Cyngor a'r setliad grant yn seiliedig ar barhau gyda'r polisi o beidio caniatau disgownt.

c) Adroddwyd i nifer o aelodau awgrymu y dylid codi mwy na 100% o'r Dreth Cyngor sy'n daladwy'n arferol ar ail gartrefi, drwy ddefnyddio "premiwm" yn hytrach na disgownt. I'r perwyl hwn, nodwyd y byddai angen newid yn y Rheoliadau Cenedlaethol a hefyd newid yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n greiddiol i'r Rheoliadau.

Eglurwyd bod Arweinydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet a sawl swyddog, ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, yn parhau i ymgyrchu i annog datblygiad o'r fath, gydag awdurdodau lleol yn cadw'r incwm treth cyngor ychwanegol y gellid ei gynhyrchu. Deellir erbyn hyn, i Lywodraeth San Steffan ganiatau'r hawl i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar godi mwy na 100%, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y mater hyd yn hyn. Yn ogystal, er mwyn gweithredu'n gyflawn, bydd angen sicrhau grym i Lywodraeth Cymru ddeddfu hefyd parthed rheoli/rhwystro trosglwyddiad tai haf i dai gwyliau masnachol a'r drefn treth busnes.

ch) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

'Roedd sawl aelod o'r farn y dylid pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori parthed yr hawl a roddwyd iddynt gan Lywodraeth San Steffan i ddeddfu ar godi mwy na 100% o Dreth Cyngor ar ail gartrefi.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod yr Aelod Cabinet Tai, wedi anfon ymateb ym mis Hydref 2012 i Lywodraeth Cymru ar fater tai gwag hir dymor. Cadarnhaodd bod Llywodraeth San Steffan wedi rhoddi'r hawl i Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar godi mwy na 100% o dreth

ar ail gartrefi ac i Lywodraeth Cymru ymgynghori parthed codi mwy o dreth ar dai gwag ond fe hepgorwyd yr elfen tai haf o'r ymgynghoriad. Er gwaethaf hynny, 'roedd ymateb ffurfiol yr Aelod Cabinet ar ran y Cyngor wedi datgan pryder bod y ddeddfwriaeth arfaethedig ddim yn mynd ddigon pell er mwyn ymdrin ag ail gartrefi a thai gwyliau.

**PENDERFYNWYD**
**a)Bod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013/14 yn caniatau <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998, a bod Cyngor Gwynedd yn caniatau <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C).**
**b) Pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori parthed yr hawl a roddwyd iddynt gan Lywodraeth San Steffan i ddeddfu ar godi mwy na 100% o Dreth Cyngor ar ail gartrefi.**

**7. CYFLOGAU AELODAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar ddyrannu'r ddau uwch gyflog sy'n weddill.

b) Gosodwyd y cyd-destun gan Arweinydd y Cyngor ac adroddodd y penderfynodd y Cyngor ar 17 Mai 2012 i ddyrannu 16 o'r 18 uwch gyflog sy'n bosibl eu dyrannu i aelodau i Arweinydd y Cyngor a hyd at 9 aelod o'r Cabinet (gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd), Cadeiryddion y tri Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgorau Archwilio, Cynllunio a Thrwyddedu. Penderfynwyd peidio â dyrannu'r ddau uwch gyflog oedd yn weddill, gan adolygu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn pan fyddai'r newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'r llwyth gwaith a ddeuai yn eu sgîl yn dod yn gliriach.

Nododd bod pump dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog sef Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor ac Arweinydd Grŵp Gwleidyddol. Dyrennir yr uwch gyflogau i swyddi penodol a dim ond hawl i un uwch gyflog sydd gan unigolyn.

Tynnodd sylw bod adroddiad blynyddol (drafft) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Rhagfyr 2012 yn nodi bod *"rhaid i gyngor roddi Uwch Gyflog i Arweinydd y Grŵp gwrthblaid mwyaf.... cyn belled â bod y grŵp yn bodloni gofyniad y panel o fod â dim llai na 10% o holl aelodau'r cyngor"*. Disgwylir yr adroddiad terfynol diwedd Rhagfyr 2012.

Mae 18 aelod gan y grŵp gwrthblaid mwyaf yng Ngwynedd, sef y Grŵp Annibynnol, sy'n uwch na 10% o holl aelodau'r Cyngor. Bydd yn ofynnol neilltuo un o'r uwch gyflogau sy'n weddill i Arweinydd y Grŵp gwrthblaid mwyaf. O dderbyn hyn, mae un uwch gyflog yn weddill. Gan gofio'r pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys, ystyriwyd cadeiryddiaethau'r pwyllgorau oedd yn weddill. Aseswyd nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys gofynion y rôl, pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau a rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor. Nododd mai'r pwyllgorau eraill na thelir uwch gyflog

i'r Cadeirydd ar hyn o bryd yw Gwasanaethau Democrataidd, Iaith, Apelau Cyflogaeth, Pensiynau a'r Pwyllgorau Ardal.

O ran pwysau gwaith, mae'n anodd cymharu wrth nifer y cyfarfodydd yn unig gan bod llawer o'r pwysau'n codi yn sgîl y galw ar gadeirydd rhwng cyfarfodydd. Fodd bynnag, ymddengys mai'r ddau bwyllgor sydd â'r galw mwyaf arnynt yn nhermau amser yw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Wrth bwyso a mesur yr ystyriaethau eraill, ymddengys bod rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn fwy arwyddocaol o ran ei bwysigrwydd i gyd-aelodau a'r rôl arweiniol/datblygol, yn enwedig o gofio newydd-deb y drefn wleidyddol newydd a phwysigrwydd rôl y Cadeirydd yn hynny o beth.

c) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Cynigiodd aelod welliant sef y dylai cadeiryddion yr holl bwyllgorau dderbyn cydnabyddiaeth am y gwaith a ymgymerir ganddynt.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y trothwy ar y nifer o uwch gyflogau y gellir eu talu, sef 18 heb gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Atgoffodd yr aelodau o benderfyniad y Cyngor ar 17 Mai 2012 i ddyrannu 16 o'r 18 uwch gyflog, ac oni bai y tynnir cyflog oddi ar rhai o'r cadeiryddion sy'n derbyn uwch gyflog ar hyn o bryd ni fyddai'n bosibl gweithredu'r gwelliant hwn.

Syrthiodd y gwelliant.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yr edrychwyd ar nifer y cyfarfodydd a bod y gwaith mwyaf yn disgyn ar gadeiryddion tu allan i'r cyfarfodydd. Ceisiwyd rhoddi sylw i ystyriaethau megis pwysgigrwydd y rôl o ran cyfeiriad a phwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau a.y.

ii) Cydnabu aelod bod rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn bwysig ond dylid hefyd pwyso a mesur gwaith y gwahanol bwyllgorau. Nododd bod llwyth gwaith y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth yn gallu bod yn drwm oherwydd yn aml iawn fe bery'r cyfarfodydd am ran helaeth o'r dydd. Deellir y cynhaliwyd oddeutu 10 cyfarfod o'r pwyllgor ers Mehefin 2012. 'Roedd o'r farn y dylid dyrannu uwch gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth.

Mewn ymateb, awgrymodd Arweinydd y Cyngor y gellir derbyn yr argymhelliad sydd gerbron y Cyngor heddiw neu cyfeirio'r mater i sylw'r pwyllgor priodol, sef y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am ystyriaeth pellach a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor.

iii) Awgrymodd aelod y dylid gohirio'r mater er cael yr holl wybodaeth gefndirol e.e nifer y cyfarfodydd rhagarweiniol a.y. a chyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor. 'Roedd yn anghydweld y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drafod y mater gan y byddai'n effeithio ar gadeirydd y pwyllgor hwnnw,

Mewn ymateb, awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai Grŵp Busnes y Cyngor drafod yr elfen cadeirio'n unig a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor. Cynigiodd aelod hyn fel gwelliant.

Syrthiodd y gwelliant.

iv) Cynigiodd aelod arall welliant sef y dylid sefydlu pwyllgor arbennig gydag aelodaeth o'r fainc gefn ac ddim i gynnwys cadeiryddion pwyllgorau, i edrych ar lefel gwaith cadeiryddion y pwyllgorau eraill a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2013.

Pasiwyd y gwelliant.

v) Cynigiodd aelod welliant sef bod mater dyrannu uwch gyflog i Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf i'w drafod hefyd gan y pwyllgor arbennig.

Syrthiodd y gwelliant.

**PENDERFYNWYD**
**a) Sefydlu pwyllgor arbennig gydag aelodaeth o'r fainc gefn ac ddim i gynnwys cadeiryddion pwyllgorau, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, i edrych ar lefel gwaith cadeiryddion y pwyllgorau eraill a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2013.**
**b) Dyrannu uwch gyflog i Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf am weddill blwyddyn bresennol y Cyngor, gan adolygu'r sefyllfa ymhellach o fis Mai 2013 ymlaen.**

**8. FFORDD GWYNEDD**

(a) Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar sut i ymdopi â'r heriau ar gyfer y dyfodol ac a yw'r model busnes yn addas ar gyfer y dyfodol neu a ddylid ei addasu. Roedd o'r farn y dylid cael mewnbwn gan holl aelodau'r Cyngor er mwyn llywio'r ffordd ymlaen.

Manylodd ar y materion canlynol –

- Yr Her Ariannol a wynebai'r Cyngor tros y bedair blynedd nesaf. Nododd y byddai'r ffigurau'n debygol o waethygu yn dilyn datganiad gan Ganghellor y Trysorlys yr wythnos hon. Cyfeiriodd at ddiffyg cyfanswm o oddeutu £25m tros bedair blynedd. Tros yr wyth mlynedd diwethaf bu'n ofynnol i'r Cyngor ganfod arbedion oddeutu £29m ac yn ystod y pedair blynedd nesaf rhagwelir y bydd angen canfod yr un swm o arbedion, ac felly mae'r her yn anferthol. Bydd yr arbedion yn effeithio ar 20% o wasanaethau'r Cyngor. Nododd yn ystod y ddwy flynedd cyntaf 'roedd gan y Cyngor fwy o arbedion wedi eu cynllunio na'r bwlch a olygai y gellir trosglwyddo'r gwarged i'r ail gyfnod. 'Roedd y Cyngor hwn ar y blaen o'i gymharu â chynghorau eraill Gogledd Cymru gan ei fod â nodwedd o flaen-gynllunio. 'Roedd o'r farn na fyddai'r model busnes yn gynaliadwy i'r dyfodol yn bennaf oherwydd bod demograffi'r wlad yn newid.

- Y dull presennol. Ar hyn o bryd edrychir ar y galw am wasanaethau ar sail polisiau cyfredol ac yna amcangyfrifir y gost ar hynny. Yn dilyn hynny canolbwyntir ar yr adnoddau. I'r dyfodol rhagwelir na ellir canfod digon o arbedion effeithlonrwydd yn y ffordd traddodiadol ac y byddai'n orfodol gwneud toriadau sylweddol yn y gwasanaethau.
- Dull amgen. Gellir parhau i dorri costau cyflenwi a chymryd agwedd mwy strategol, systematig i leihau cost y galw am wasanaethau cyhoeddus. Os gellir gwneud hynny, yna byddai'n bosibl cael model busnes gwahanol. Cyfeiriodd at dŵf cyllidebol rhwng 2005 a 2013 o 65% yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o'i gymharu â llai na 20% yng ngweddill gwasanaethau'r Cyngor.
- Profi'r Ddamcaniaeth. A yw'r potensial yn ddigon i gyfiawnhau ymagwedd strategol a beth fyddai angen ei newid er mwyn iddo fod yn llwyddiannus. Cyfeiriodd at leihau cost y galw drwy waith ataliol a throsglwyddo cyfrifoldebau i unigolion/cymunedau. Parthed y ffocws, gellir canolbwyntio ar wahanol feysydd megis Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Cyffredinol, Pobl Hŷn a Iechyd Cyhoeddus. Cyfeiriodd at Fodel Busnes Amgen, Gwasanaeth i'r Henoed a oedd yn llai costus.
- Plant a Theuluoedd. Cyfeiriodd at ddatblygiad yr ymennydd gyda babanod wedi eu geni gyda 25% o'r ymennydd wedi datblygu ac erbyn y byddant yn 3 oed, byddai 80% o'r ymennydd wedi datblygu. Erbyn eu bod yn 5 oed, byddant wedi meithrin 85% o'u deallusrwydd, personoliaeth a sgiliau. Byddai profiadau cynnar yn cael effaith pendant ar adeiladwaith yr ymennydd.
- Effaith Amddifadedd. Nododd bod plant o'r cartrefi sy'n yr 20% tlotaf, ar gyfartaledd 19 mis tu ôl i blant o'r 20% uchaf erbyn oed 4/5. Yn gyffredinol, gellir priodoli 20% o amrywiant yng nghyflawniad disgyblion i ffactorau lefel ysgol a'r 80% arall i ffactorau lefel disgybl.
- Patrwm Gwariant Cyhoeddus ar Addysg yng Nghymru a Lloegr tros y cylch bywyd.
- Lleihau'r Galw – Arbed Arian. Cyfeiriodd at y ffaith bod Senedd yr Alban yn amcangyfrif y gellid creu arbedion net yn y tymor canolig o £130m y flwyddyn, cyn genedigaeth i 5 oed. Byddai'r ffigur cyfatebol yng Nghymru oddeutu £70m/£80m y flwyddyn. Yn ogystal amcangyfrifwyd bod 40%-45% o wariant cyhoeddus yn yr Alban yn negyddol ac wedi ei dargedu i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol.
- Yr hyn sydd angen ei newid e.e. newid y berthynas rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth, rôl ddeublyg i'r Cyngor, perthynas ar y cyd gyda'r gymuned a'r angen am sgiliau/gallu newydd.

(b) Codwyd rhai cwestiynau gan yr aelodau ar y cyflwyniad ac ymatebodd y Prif Weithredwr yn briodol iddynt.

Yn dilyn rhoddwyd cyfle i'r aelodau bleidleisio'n anffurfiol ar y cwestiynau canlynol –

i) Mewn egwyddor, a allai'r math hwn o strategaeth weithio.
ii) A allai swyddogion y Cyngor newid i ymateb i'r her yma.
iii) A allai aelodau arwain y newid yn y gymuned.
iv) A allai'r Cyngor a'r gymuned newid i sicrhau llwyddiant.
v) A ddylai'r Cyngor newid ei fodel busnes i ymdopi â'r dyfodol

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am y cyflwyniad.

## 9. CANOLBWYNTIO AR BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD

a) Cafwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg a Phlant a Phobl Ifanc ar rhai o'r prif feysydd gwaith y bu'r aelod yn ymwneud â hwy ers Mai 2012.

Tynnodd sylw at y materion canlynol –

- Mai nod y Cyngor yw bod pob plentyn yn cael cyfle a chefnogaeth i ddatblygu'n llawn.
- Bod 25,494 o blant yng Ngwynedd ac o fewn y ffigur hwn mae rhai grwpiau o blant sy'n llawer mwy bregus na'i gilydd e.e. mae tros 200 o blant mewn gofal yng Ngwynedd. Nododd bod tros 1,000 o blant gyda gwahanol anghenion dysgu a 3.800 o blant mewn teuluoedd sydd allan o waith sy'n derbyn credydau treth.
- Y bedair prif thêm y disgwyliai ganolbwyntio arnynt sef Lles, Diogelwch, Materion Amddiffyn; Cysondeb Ansawdd Addysg; Cyfundrefn o Ysgolion Cynaliadwy a Chefnogi Grwpiau Arbennig o Blant/Teuluoedd. Manylodd ar gefndir/blaenoriaethau'r themâu hyn.
- Meini prawf llwyddiant -meini prawf ansawdd - sef plant yn ddiogel yng Ngwynedd; safonau cyson ac uchel o ran ansawdd ar draws ac o fewn ysgolion; darpariaeth gynhwysol ac addas; rhwydwaith o ysgolion o'r maint cywir yn y lleoliad cywir.
  Meini prawf proses – cefnogaeth ragweithiol effeithiol i rai grwpiau o blant a theuluoedd; ymyrraeth gynnar effeithiol ar draws y spectrwm oedran a sylw dwys i'r blynyddoedd cynnar a gwaith ataliol llwyddiannus.

b) Codwyd rhai cwestiynau gan yr aelodau ar y cyflwyniad ac ymatebodd yr Aelod Cabinet yn briodol iddynt.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am y cyflwyniad.

## 10. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 17, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12), oddiwrth y Cynghorydd Stephen Churchman, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor -

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**“ Gan ystyried pwysigrwydd strategol ein rhwydwaith rheilffyrdd isranbarthol drwy ogledd Cymru, mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod nad oes digon o werth yn cael ei roddi i’r rhwydwaith hwn, ac nad yw’r ddau lywodraeth, yn San Steffan ac yn fwy diweddar yng Nghaerdydd, wedi rhoddi digon o gefnogaeth iddo.**

**Cyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2012 y byddai buddsoddiad sylweddol gwerth £350m yn cael ei wneud yn Ne Cymru, unwaith eto, mae Gogledd Cymru ar ei golled. Pe baem yn cael buddsoddiad o’r fath yn ein rhwydwaith ni, byddai gennym reilffordd fyddai’n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Byddai hyn yn magu hyder yn ein hisadeiledd, a allai arwain at fuddsoddiadau masnachol drwy’r rhanbarth o ganlyniad.**

**I’r perwyl hwn, mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i gydnabod pwysigrwydd hanfodol ein rhwydwaith is-ranbarthol, ac i fuddsoddi’n sylweddol yn unol â hynny.**

**Rhaid i Gyngor Gwynedd hefyd geisio cefnogaeth gan yr holl Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, yr Aelodau Seneddol a’r Aelodau Cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol, a chydweithio â hwy i roddi’r hwb mwyaf posibl ar gyfer bwrw ymlaen â’r mesur hwn”.**

Ymhelaethodd y cynigydd ar y rhybudd o gynnig.

Hysbysodd Arweinydd y Cyngor bod yr is-adeiledd yn fater o bwys i’r Cyngor. Fodd bynnag, hoffai gywiro rhai pwyntaiu yn y cynnig a thynnodd sylw nad yw’r system rheilffyrdd wedi ei ddatganoli i Gymru ac felly mater i Lywodraeth San Steffan yw ariannu’r rheilffyrdd. Nododd bod Prydain yn cael 98% o fuddsoddiad o’r rheilffyrdd ac yn gadael Cymru gyda 2% o fuddsoddiad. Trafodwyd y mater oddeutu 18 mis yn ôl gyda Mr David Jones, sydd erbyn hyn yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac ers hynny cynhaliwyd nifer o drafodaethau pryd y cytunwyd i gael ymgyrch er mwyn trydaneiddio rheilffordd Gogledd Cymru hyd at Crewe. Nododd hefyd bod rhagor o waith i’w wneud, megis trydaneiddio’r rheilffordd o Ogledd Cymru i Dde Cymru.

Cynigiodd aelod arall ychwanegiad i’r cynnig sef *“y dylid gofyn i Lywodraeth San Steffan warchod yr is-adeiledd presennol”*. ‘Roedd cynigydd y rhybudd o gynnig yn derbyn yr ychwanegiad hwn.

Cyfeiriodd aelod at yr angen i uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy ac ‘roedd o’r farn y dylid tynnu sylw Llywodraeth San Steffan at hyn yn ogystal. ‘Roedd cynigydd y rhybudd o gynnig yn fodlon i gynnwys hyn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth San Steffan i -**
**i) Gydnabod pwysigrwydd hanfodol ein rhwydwaith is-ranbarthol, ac i fuddsoddi’n sylweddol yn unol â hynny.**
**ii) Warchod yr is-adeiledd presennol.**
**iii) Uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy.**

**b) Ceisio cefnogaeth gan yr holl awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol, a chydweithio â hwy i roddi'r hwb mwyaf posibl ar gyfer bwrw ymlaen â'r mesur hwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.45p.m.

____________________

**CADEIRYDD**